# Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored

## Strategaeth y Gymraeg

### Cyd-Destun

Ym mis Medi 2020, dechreuodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr ar y Dystysgrif Addysg Ôl-raddedig (TAR). Cyflwynwyd y rhaglen gan Bartneriaeth AGA y Brifysgol Agored mewn cydweithrediad â ysgolion ledled Cymru a rhanddeiliaid addysgol ar ran Llywodraeth Cymru. Yn unol â'r Meini Prawf Achredu ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon yng Nghymru, mae'r Gymraeg yn ganolog i Raglen TAR y Bartneriaeth Y Brifysgol Agored. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gweledigaeth, blaenoriaethau a chamau gweithredu'r rhaglen.

### Gweledigaeth


Bydd Rhaglen TAR Partneriaeth y Brifysgol Agored yng Nghymru yn meithrin amgylchedd cefnogol a chadarnhaol i fyfyrwyr a staff wella eu sgiliau Cymraeg – beth bynnag fo'u hiaith gyntaf – ac yn annog dulliau creadigol ac ystyrlon o ddatblygu sgiliau ieithyddol a chariad disgyblion at yr iaith.

### Trosolwg

Mae nodau'r Brifysgol Agored yng Nghymru o ran rhagoriaeth academaidd yn cynnwys hyrwyddo cyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel addysg uwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r polisi strategol cenedlaethol ehangach, sef Cymraeg 2050, sy'n anelu at gynyddu nifer y siaradwyr

Cymraeg ac at greu *'gweithlu sydd â sgiliau ieithyddol cadarn, sy'n gallu ysbrydoli ac ysgogi dysgwyr'* (Llywodraeth Cymru, 2018)[1]. Yn unol â hyn, mae'r Brifysgol yn ymrwymo i feithrin sgiliau addysgeg athrawon dan hyfforddiant i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg – yn enwedig mewn pynciau prin yn y sector uwchradd – ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr y dyfodol yn ystod eu rhaglen AGA[2]. Mae ymwybyddiaeth iaith hefyd wedi'i hymgorffori yn astudiaethau modiwlaidd y myfyrwyr, gan eu paratoi i fynd â'r wybodaeth a'r sgiliau hyn gyda nhw i'w gyrfaoedd addysgu yn y dyfodol.

## Blaenoriaethau




[1] Llywodraeth Cymru (2018), Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg (llyw.cymru), t.10
[2] Llywodraeth Cymru (2021) Cynllun gweithlu addysg Gymraeg, t.9

## Creu diwylliant ffyniannus a chadarnhaol o ddatblygu sgiliau Cymraeg

- Cynyddu nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu adnoddau priodol i gefnogi dysgu iaith myfyrwyr.
- Datblygu adnoddau priodol i gefnogi arfer da wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth.
- Datblygu adnoddau priodol i gefnogi methodoleg addysgu iaith.
- Parhau ac ehangu partneriaeth â Dysgu Cymraeg i sicrhau'r budd mwyaf'n myfyrwyr ddysgu iaith.
- Sicrhau bod myfyrwyr yn cael cymorth addas yn yr ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Sicrhau bod staff academaidd a phartneriaeth yn deall pwysigrwydd y Gymraeg ac yn ei defnyddio hyd eithaf eu gallu.
- Sicrhau bod gan staff fynediad i gyrsiau Dysgu Cymraeg am ddim i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Sicrhau bod y rhaglen yn parhau i ddatblygu myfyrwyr i fodloni gofynion y Fframwaith Cymhwysedd Iaith i Ymarferwyr Addysg.
- Rhoi cymorth i fyfyrwyr wella hyder a sgiliau Cymraeg.
- Ymrwymo i ehangu partneriaethau â rhanddeiliaid eraill i ehangu dylanwad TAR Cymru a chreu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr.

## Themâu Cymraeg

Mae'r canlynol yn cynrychioli trosolwg o'r themâu allweddol a ffocws ar gyfer datblygiad TAR y Brifysgol Agored yng Nghymru o'r Gymraeg.

Myfyrwyr

Sicrhau bod myfyrwy yn deall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ac yn ymroddedig i wella eu sgiliau eu hunain a sgiliau eu disgyblion.

Partneriaeth: Mentoriaid

Addysgu mentoriaid am eu rôl mewn perthynas â gofynion y Safonau Addysgu Proffesiynol a'r Fframwaith Iaith Gymraeg

Partneriaid Allanol

Ymrwymo i ehangu partneriaethau gyda rhanddeiliaid eraill sy'n sicrhau bod y Brifysgol Agored a TAR Cymru yn cryfhau ei phresenoldeb a'i dylanwad

# Cyflawni ein nodau

1. **Creu diwylliant ffyniannus a chadarnhaol o ddatblygu sgiliau Cymraeg**

- Parhau i sicrhau bod yr holl ddeunydd ar gael yn ddwyieithog.
- Grwpio yfyrwyr yn ôl llwybr iaith.
- Darparu tiwtor bugeiliol Cymraeg i fyfyrwyr.
- Parhau i ddarparu ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r rhaglen.
- Creu mannau anffurfiol i alluogi myfyrwyr i rannu profiadau a chefnogi dysgu iaith, e.e. ar gyfer 'coffi a chlonc' ac ar-lein.

2. **Cynnydd yn nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg**

- Teilwra marchnata yn benodol i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

- Sicrhau bod nosweithiau agored yn ddwyieithog ac yn cynnwys cynrychiolaeth gan fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.
- Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau sy'n cyrraedd darpar fyfyrwyr.
- Creu cynnig rhagweithiol lle bydd ymgeiswyr sy'n nodi eu bod wedi mynychu ysgol Gymraeg ar ffurflen gais yn cael eu cyfweld drwy'r Gymraeg a'u cyfeirio at y llwybr Cymraeg.
- Parhau i hyrwyddo cyfleoedd i astudio a chyflwyno gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol y cwrs.

3. **Datblygu adnoddau i gefnogi dysgu iaith myfyrwyr**

- Parhau i ddatblygu deunyddiau ac adnoddau priodol ar yr ADRh i gefnogi dysgu iaith.
- Parhau i ddatblygu ein partneriaeth â Dysgu Cymraeg i hwyluso dysgu iaith.
- Parhau i ddatblygu ein partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu sgiliau siaradwyr Cymraeg.
- Cyfeirio myfyrwyr at gyrsiau byr cyfrwng Cymraeg sydd ar gael drwy Open Learn.
- Sicrhau bod pecyn cymorth y Brifysgol Agored ar gael yn ddwyieithog e.e. sgiliau astudio, cymorth i fyfyrwyr.
- Datblygu adnoddau a fydd yn hyrwyddo methodolo addysgu iaithgy, gan gynnwys deunyddiau arfer da.
- Darparu cymorth wedi'i deilwra i devesgiliau ysgrifennu academaidd drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. **Sicrhau bod myfyrwyr yn cael cymorth priodol yn yr ysgol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg**

- Hyrwyddo a chryfhau rôl yr ***Annogwr y Gymraeg*** mewn ysgolion fel arweinydd cadarnhaol sy'n ysbrydoli defnydd dyddiol o'r Gymraeg, yn meithrin diwylliant ieithyddol cynhwysol, ac yn cefnogi datblygiad sgiliau iaith ar draws y gymuned ysgol gyfan, gan gynnwys darpar athrawon y Brifysgol Agored.
- Sicrhau bod mentoriaid yn derbyn hyfforddiant priodol ar ofynion y Gymraeg ac arfer da.
- Sicrhau bod datblygiad Cymraeg yn ffocws sesiynau mentor-myfyrwyr wythnosol.
- Ystyried datblygiad y Gymraeg fel elfen o weithio tuag at safonau SAC mewn barn interim a therfynol.
- Monitro cynnydd drwy wiriadau ffeiliau rheolaidd ar adegau drwy gydol y rhaglen 2 flynedd ac adroddiadau interim.


5. **Darparu'r modd i fyfyrwyr fodloni gofynion Fframwaith y Gymraeg**

- Darparu hyfforddiant ar ofynion pob modiwl.
- Mesur datblygiad iaith drwy archwiliad ar ddechrau pob modiwl, yn ogystal â hanner ffordd ac ar ddiwedd TAR 3.
- Darparu deunydd enghreifftiol ar bob lefel ieithyddol.
- Parhau i gysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau arfer gorau.
- Cryfhau monitro datblygiad y Gymraeg fel elfen o weithio tuag at safonau SAC mewn barn interim a therfynol.
- Datblygu prosesau systematig i olrhain data fframwaith y Gymraeg.

6. **Ymrwymo i ehangu partneriaethau â rhanddeiliaid eraill i ehangu dylanwad TAR Cymru a chreu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr**

- Parhau i ehangu ein partneriaeth â Dysgu Cymraeg er mwyn galluogi myfyrwyr i wella eu sgiliau Cymraeg.
- Parhau i ddatblygu ein partneriaeth gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sicrhau bod ein myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach a bod yn rhan o'r gymuned addysg uwch cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau bod profiad TAR Cymru o ddwyieithrwydd yn cael ei ddefnyddio ar lefel strategol o fewn y Brifysgol Agored.
- Parhau gyda chynrychiolaeth allanol ar gyfer pwyllgorau megis Pwyllgor Gweithredu Gweithlu Addysg Cymru, tasglu ADY cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru, Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol ar gyfer y Gymraeg a Dwyieithrwydd, ac yn fewnol ar Bwyllgor Academaidd y Gyfadran Lles, Addysg, a Phwyllgor Academaidd Astudiaethau Iaith, Cymuned Ymarfer Trawsgyfadrannol Cymru.

**Bydd Strategaeth Iaith Gymraeg Rhaglen TAR y Brifysgol Agored yn:**




- Hysbysu myfyrwyr ac ysgolion partneriaeth am eu rôl yng Nghwricwlwm Cymru o ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion wrth uwchsgilio eu sgiliau Cymraeg eu hunain ar yr un pryd.
- Ysbrydoli myfyrwyr ac ysgolion partneriaeth i werthfawrogi rôl y Gymraeg yn niwylliant a threftadaeth Cymru.
- Dylanwadu trwy gryfhau enw da TAR Cymru gyda'r bartneriaeth, ymarferwyr, partneriaid allanol a llunwyr polisi yn rhaglen sy'n gallu cynnig rhaglen gwbl ddwyieithog i'n myfyrwyr, a ddarperir gan addysgwyr athrawon arbenigol.
- Effeithio ar gymunedau ysgolion a'r gymdeithas ehangach drwy baratoi addysgwyr i ddefnyddio, hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ym mhob cyd-destun.